ATODLEN 11

Darpariaethau Diogelu

# RHAN 1

## Diogelu ymgymerwyr trydan, nwy, dŵr a charthffosiaeth

**6.**—(1) Pan fo'r ymgymerwr yn rhoi i ymgymerwr cyfleustod, yn unol â'r Rhan hon, gyfleusterau a hawliau i adeiladu a chynnal a chadw cyfarpar amgen yn nhir yr ymgymerwr yn lle'r cyfarpar sydd i'w dynnu ymaith, rhaid i'r cyfleusterau a'r hawliau hynny gael eu rhoi ar y cyfryw delerau ac amodau ag y cytunir arnynt rhwng yr ymgymerwr a'r ymgymerwr cyfleustod dan sylw neu, yn niffyg cytundeb, ag y'u setlir drwy gymrodeddu yn unol ag erthygl 49 (cymrodeddu).

(2) Wrth setlo'r telerau ac amodau hynny mewn cysylltiad â'r cyfarpar amgen sydd i'w adeiladu yn neu ar hyd y prosiect awdurdodedig, rhaid i'r cymrodeddwr—

(a) gweithredu pob un o ofynion rhesymol yr ymgymerwr o ran sicrhau diogelwch a gweithrediad effeithlon y prosiect awdurdodedig a sicrhau unrhyw newidiadau neu addasiadau canlyniadol i'r cyfarpar amgen ag sy'n ofynnol er mwyn atal ymyriadau â gweithfeydd awdurdodedig yr ymgymerwr; a

(b) i'r graddau y mae'n rhesymol ac yn ymarferol gwneud hynny o dan amgylchiadau'r achos penodol, weithredu telerau ac amodau, os o gwbl, sy'n gymwys i'r cyfarpar a adeiladwyd yn neu ar hyd y prosiect awdurdodedig y mae'r cyfarpar amgen i'w roi yn ei le.

(3) Os yw'r cyfleusterau a'r hawliau sydd i'w rhoi gan yr ymgymerwr mewn cysylltiad ag unrhyw gyfarpar amgen, a'r telerau ac amodau y mae'r cyfleusterau a'r hawliau hynny i'w rhoi yn ddarostyngedig iddynt, ym marn y cymrodeddwr, yn llai ffafriol ar y cyfan i'r ymgymerwr cyfleustod dan sylw na'r cyfleusterau a'r hawliau y mae'n eu mwynhau mewn cysylltiad â'r cyfarpar sydd i'w dynnu ymaith a'r telerau ac amodau y mae'r cyfleusterau a'r hawliau hynny yn ddarostyngedig iddynt, rhaid i'r cymrodeddwr wneud y cyfryw ddarpariaeth i'r ymgymerwr ddigolledu'r ymgymerwr cyfleustod ag yr ymddengys yn rhesymol i'r cymrodeddwr wedi iddo roi sylw i holl amgylchiadau'r achos penodol.